# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 3 Hydref 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd F. Akhtar (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, C.A. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, R.E. Evans, W.T. Evans (In place of D.C. Evans), S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.I. Jones, S. Matthews, H.B. Shepardson, G.B. Thomas and A.Vaughan Owen

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
R. Stradling, Business & Projects Manager
L. McNicholl, Rheolwr Cofrestredig Cartref Gofal
J Tillman, Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a Chwynion
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 10.35 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D.C. Evans.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Gwnaed y datganiad buddiannau personol canlynol:-

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G.B. Thomas | 7 - Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2019/20 | Marchnad Da Byw yn Nant y Ci - Wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond i beidio â phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar faterion yn ymwneud â Ffermio ac Amaeth neu'n sy'n debygol o effeithio arnynt. |

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2019

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Is-adran Gynllunio am y cyfnod Ebrill 2018 - Mawrth 2019, a luniwyd yn unol â Thabl y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a fabwysiadwyd yn 2014. Nodwyd bod y Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ar eu perfformiad er mwyn ei werthuso yn erbyn targedau gosod. Wedi'r gwerthusiad hwnnw, bydd perfformiad pob awdurdod lleol yn cael ei gategoreiddio i un o dri band perfformiad: Gwella (coch), Gweddol (ambr), Da (Gwyrdd) a aseswyd ar draws y pum agwedd allweddol canlynol ar ddarparu gwasanaeth cynllunio:-

- Gwneud cynlluniau;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu;
- Gorfodi.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at dudalen 25 yr adroddiad ar gyllideb weithredol yr Is-adran gynllunio dros y cyfnod 2014/15 i 2018/19 gan roi sylw penodol i flwyddyn ariannol 17/18 a 18/19 lle'r oedd y gwir incwm oddeutu £400k yn llai ar gyfer pob blwyddyn na'r incwm a dargedwyd, sef £1.25m. Gofynnwyd cwestiwn a ellid lleihau'r incwm hwn i oddeutu £900k, gan ddileu'r gwahaniaethau cyllidebol i bob pwrpas.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i leihau yr incwm a dargedwyd fel yr awgrymwyd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid ystyried costau staffio er mwyn sicrhau bod yr awdurdod mewn sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth statudol, fel yr oedd rheidrwydd arno i'w wneud.

  Cadarnhaodd ymhellach fod y gyllideb bresennol yn cael ei harchwilio'n feirniadol gyda'r nod o leihau'r costau lle bynnag y bo modd.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd yn nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i'r awdurdod benderfynu ar geisiadau cynllunio a oedd wedi codi o 95 yn 2017 i 106 yn 2018/19 ond, mewn cymhariaeth, dim ond 77 diwrnod oedd cyfartaledd Cymru. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y rheswm dros y cynnydd ac a allai fod yn gysylltiedig â lefelau staffio.

  Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Cynllunio fod yr Is-adran yn 2015 wedi cael adolygiad Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC), ac o ganlyniad, cyflwynwyd gwasanaeth ar ei newydd wedd gyda'r nod o weithio gyda datblygwyr i sicrhau cymeradwyo ceisiadau cynllunio, lle bynnag y bo modd. Er bod cwsmeriaid yn fwy bodlon â'r gwasanaeth hwnnw, roedd penderfyniadau yn cymryd mwy o amser. O ganlyniad, byddai'r Is-adran yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth yn ystod y chwe mis nesaf.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau sef 31 Hydref.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018/19 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MABWYSIEDIG SIR GAERFYRDDIN

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2018/19 ynghylch gweithrediad Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, a hwn oedd y pedwerydd adroddiad o'r fath a luniwyd yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2015. Yn unol ag Adran 76 o'r Ddeddf, nodwyd bod dyletswydd ar yr awdurdod i gynhyrchu'r AMB i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref bob blwyddyn wedi i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriodd y Rheolwr Blaen-gynllunio at gwestiwn ar ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo. Cadarnhaodd y byddai cynnwys ‘xxx’ yn yr adroddiad yn cyfeirio at ddata sydd ar ddod a fyddai, ar ôl ei dderbyn, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cyn cyhoeddi’r AMB a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cyfeiriwyd at rôl ddatblygol y Cynlluniau Lleoedd drwy'r Agenda Cynllunio Cadarnhaol a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac at nifer y cynlluniau sydd eisoes ar waith.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio, er nad oedd unrhyw gynlluniau ar waith ar hyn o bryd, fod eu datblygiad yn broses gymharol newydd ac oherwydd diffyg eglurder, byddai angen darparu cymorth ac arweiniad ynghylch rôl Cynghorau Tref a Chymunedol a grwpiau cymunedol yn y dyfodol. Y pwynt allweddol oedd bod yn rhaid i'r cynlluniau fod yn gysylltiedig â'r CDLl ac roedd angen i'r Is-adran Gynllunio gysylltu â chymunedau am y cwmpas a'r paratoi ar ôl mabwysiadu'r CDLl diwygiedig ar gyfer 2018-2033.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL/CYNGOR fod y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, a'i argymhellion, yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CWARTER 1 - 1AF EBRILL I'R 30AIN O FEHEFIN 2019

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 - 1 Ebrill i 30 Mehefin 2019, a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau a'r mesurau yn Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018/19 o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant o fewn ei faes gorchwyl.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at berfformiad y gwasanaethau hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor. Er y cydnabuwyd bod oddeutu 90% o'r perfformiad targed yn cael

ei gyflawni, diwygiwyd 16 targed â dyddiad cwblhau diweddarach heb unrhyw esboniad ar gyfer y diwygiad. Mynegwyd barn y dylai'r adroddiad gynnwys rhesymau dros newid y dyddiadau targed er mwyn i'r pwyllgor graffu ar berfformiad yn effeithiol.

- Cyfeiriwyd at gam 13945 yn yr adolygiad o seilwaith a rhaglennu Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn. Atgoffwyd y Pwyllgor o'i ymweliad safle diweddar â'r Ganolfan a'r angen i'r aelodau gefnogi gweithrediad parhaus y Ganolfan.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Busnes a Phrosiectau, er bod arfarniad opsiynau wedi'i wneud yn y ganolfan, fod angen gwneud rhagor o waith ar gyflwr ffisegol yr ystafelloedd cysgu a gwella profiad yr ymwelydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**6.1 Derbyn yr adroddiad**

**6.2 Bod y Pwyllgor yn cael esboniad pam roedd 16 o'r camau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad wedi derbyn dyddiadau targed diwygiedig.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2019/20

(NODER: Roedd y Cynghorydd G.B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon mewn perthynas â'r farchnad da byw yn Nant y Ci)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2018/19 y Gwasanaethau Tai, Adfywio, Cynllunio a Hamdden ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2019. Nodwyd y rhagwelid gorwariant o £574k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £236k yn y gyllideb gyfalaf, a thanwariant o £172k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ar y diffyg o £55k a ragwelir yng nghyllideb y farchnad da byw yn Nant y Ci, hysbyswyd y pwyllgor, er nad oedd y wybodaeth ar gael yn hwylus, y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i aelodau gael ymateb.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CANMOLIAETH A CHWYNION 2018/19

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth ar gyfer y cyfnod 2018/19 gan dalu sylw penodol i Adrannau 10.4 a 10.6 a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl. Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y canlynol:-

- nifer y cwynion yr ymchwiliwyd ac yr ymatebwyd iddynt rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 fesul adran,

- ystadegau o ran y negeseuon a gafwyd gan y Tîm Cwynion, ac a ailgyfeiriwyd. Roedd y rheiny'n ymwneud ag ymholiadau a cheisiadau am gymorth a oedd, unwaith y'u cyflwynwyd, yn cynnig y cyfle i geisio eu datrys
- cwynion yr oedd yr Ombwdsmon yn penderfynu arnynt,
- dadansoddiad o gwynion a chanmoliaeth fesul adran.
- Crynodeb o ymholiadau cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth ar gyfer 2018/19.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2018/19

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19 i'w ystyried. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Bwrdd Gweithredol, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Hydref 2019.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Hydref 2019.**

## 11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 GORFFENNAF, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir.**

________________________  ________________________

**CADEIRYDD**  **DYDDIAD**